# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 28 Ionawr, 2019

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau 31 Ionawr, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 7 Chwefror, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 8 Chwefror, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Eric Jones, R. Llewelyn Jones

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 10:30 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2018 fel rhai cywir yn amodol ar nodi fod y Cynghorydd Richard Dew yn bresennol yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi, 2019 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar eu harolygiad o Wasanaethau Plant Ynys Môn.**<br>• **Derbyn a chytuno â safiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae hangen eu datblygu.**<br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn parhau i dderbyn adroddiadau diweddaru cynnydd chwarterol ar welliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i ganfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adolygiad Canol Blwyddyn - Rheoli Trysorlys**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo adroddiad adolygu canol blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2018/19 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda rheoliadau CIPFA** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 27 Chwefror, 2019** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda gofynion Llywodraeth Cymru** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |